# Grŵp Trawsbleidiol Gorchwyl a Gorffen Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Blant sy’n Dioddef gan fod eu Rhieni wedi’u Carcharu (CAPI) – Cylch Gorchwyl (yn amodol ar gael ei fabwysiadu’n ffurfiol)

**Gweledigaeth**
Sefydlu polisi, deddfwriaeth a fframwaith ymarfer cenedlaethol i sicrhau bod pob plentyn sy’n profi’r caledi o fod â rhiant mewn carchar yn cael eu cydnabod, eu clywed, ac yn cael cyfle teg i sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn eu bywydau.

**Cylch Gorchwyl**
Disgwylir i aelodau’r grŵp gyfrannu at weithrediad y grŵp, pryd bynnag y bo hynny’n bosib, naill ai’n bersonol neu drwy anfon cynrychiolydd. Cymerir bod unrhyw gyfraniad a wneir gan gynrychiolydd yn adlewyrchu barn yr aelod gwreiddiol, heblaw y pennwyd fel arall.

Pryd bynnag y bo modd, disgwylir i aelodau’r grŵp neu eu cynrychiolwyr ymateb i wybodaeth a rennir a cheisiadau a wneir rhwng cyfarfodydd swyddogol.

**Darganfod – casglu gwybodaeth, profiadau ac ymchwil**
- Ystyried gwybodaeth a gasglwyd yn uniongyrchol gan deuluoedd sy’n dioddef gan fod aelod o’r teulu wedi’i garcharu.
- Ystyried gwybodaeth a gasglwyd gan ddarparwyr gwasanaeth arbenigol.
- Ystyried gwybodaeth a gasglwyd gan wasanaethau generig ar gyfer CAPI.
- Ystyried canfyddiadau ymchwil.
- Ystyried blaenoriaethau ymchwil newydd.
- Ymweld â gwasanaethau.
- Ymweliadau eraill e.e. Carchar y Parc.

**Diffinio – disgrifio a thynnu sylw at y materion perthnasol**
Dwyn ynghyd yr amrywiol faterion a wynebir gan deuluoedd â phlant sy’n dioddef gan fod eu rhieni wedi’u carcharu, gan ddarlunio cymhlethdod eu hanghenion a pha mor ddigonol yw ymatebion cyfredol
- Ystyried materion yng nghyswllt atodlen 7
    - Ystyried argymhellion i Lywodraeth Cymru
        - Dros beth y gallai Llywodraeth Cymru eiriol?
        - Beth allai Llywodraeth Cymru ei gyflawni?

**Dosbarthu**

DRAFT

- Manteisio ar gyfleoedd ar gyfer cwestiynau ysgrifenedig a llafar mewn sesiynau llawn.
- Manteisio ar gyfleoedd ar gyfer dadleuon byr.
- Ystyried dylanwad cynlluniau gwaith ac ymholiadau Pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r dyfodol.
- Cynhyrchu adroddiad Grŵp Trawsbleidiol gan gynnwys diffinio'r mater a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru.

DRAFT